SAFONAU MASNACH CENEDLAETHOL
Diogelu Defnyddwyr Cefnogi Busnesau

SAFONAU MASNACH CENEDLAETHOL
Cylch Gorchwyl

1. Diben

1.1 Mae Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS) yn cyflawni gorfodaeth diogelu defnyddwyr yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae ei Fwrdd yn cynnwys Cadeirydd annibynnol ac uwch benaethiaid profiadol o wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol o bob cwr o Loegr a Chymru. Ei ddiben yw amddiffyn defnyddwyr a diogelu busnesau cyfreithlon trwy fynd i'r afael â materion difrifol diogelu defnyddwyr cenedlaethol a rhanbarthol a throseddu cyfundrefnol a thrwy ddarparu "rhwyd ddiogelwch" i gyfyngu ar nwyddau defnyddwyr anniogel sy'n cyrraedd y DU a diogelu cyflenwadau bwyd trwy sicrhau bod y gadwyn bwyd anifeiliaid yn ddiogel.

1.2 Bydd NTS yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gynnig atebion i gyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â Safonau Masnach, lle cytunir bod hyn yn cael ei wneud orau trwy Dimau arbenigol ar lefel leol neu ranbarthol neu genedlaethol gan ddefnyddio arian grant uniongyrchol gan y Llywodraeth neu sefydliadau eraill.

1.3 Nid yw NTS yn sefydliad polisi. Bydd materion sy'n ymwneud ag agweddau polisi Safonau Masnach yn cael eu harwain gan y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) a Chymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO). Pan fo dadleuon polisi o'r fath yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau gan awdurdodau lleol, yna bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn arwain. Bydd NTS yn rhoi cyngor a chefnogaeth ar y materion hyn pan ofynnir amdano a lle bo hynny'n briodol. Gall NTS hefyd gynnig canllawiau anffurfiol ar faterion TS lle bo hynny'n briodol.

1.4. Pan fydd unrhyw swyddogaeth newydd sy'n gysylltiedig â Safonau Masnach yn cael ei chynnig, bydd NTS yn ceisio cynnig atebion lle bynnag y bo modd, ond ni fyddai'n gwneud hynny pe bai hyn yn groes i safbwynt cytunedig CLlL neu CLlLC.

2. Bwrdd NTS

2.1 Bydd y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol ('y Bwrdd') yn defnyddio cyllid gan y Llywodraeth, yn unol ag unrhyw amodau a bennir gan Adrannau neu Asiantaethau ariannu.

2.2 Bydd y Bwrdd yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau allweddol ar gyfer datblygu a chytuno ar:

- Flaenoriaethau strategol cenedlaethol ar gyfer gwaith diogelu defnyddwyr;
- Dyrannu arian grant i fodloni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt;
- Y mecanweithiau cyflawni angenrheidiol a'r dulliau priodol i fonitro perfformiad.

Ar ben hynny, bydd y Bwrdd yn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol ac adrodd ar y gweithgaredd y cytunwyd arno.

3. Atebolrwydd

3.1 Bydd y Bwrdd yn atebol i unrhyw gorff cyllido am weithgareddau a gyflawnir gan ddefnyddio'r arian hynny a thrwy brosesau Cyfrifon Cyhoeddus o fewn y llywodraeth ar gyfer cyflawni ei weithgareddau.

3.2 Bydd y Bwrdd hefyd yn atebol i unrhyw grwpiau goruchwylio a gyfansoddir gan Adrannau perthnasol y Llywodraeth yn unol â chytundebau cyllido.

4. Strwythur gweithredol

4.1 Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am ddyrannu cyllid, o dan unrhyw grantiau neu gytundebau ariannu, ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig â Safonau Masnach.

4.2 Bydd blaenoriaethau'r Bwrdd yn cael eu harwain gan ddadansoddiad deallusrwydd effeithiol a bydd gwaith yn dilyn egwyddorion ei Fodel Gweithredu Deallusrwydd ar gyfer defnyddio deallusrwydd.

4.3 Bydd y Bwrdd yn gweithredu fel Grŵp Gorchwyl Strategol lefel tri (cenedlaethol/rhyngwladol). Bydd yn cytuno ar flaenoriaethau cyffredinol ac yn dyrannu cyllidebau i feysydd gwaith penodol. Bydd hyn yn cynnwys

dyrannu cyllideb i'r Grŵp Gorchwyl Cenedlaethol.

4.4 Gall y Bwrdd sefydlu grwpiau llywodraethu, sy'n cynnwys Penaethiaid Safonau Masnach o Gymru a Lloegr, i ymgymryd â rôl oruchwylio fwy uniongyrchol a phenodol ar gyfer unrhyw ffrwd waith NTS. Bydd gan bob grŵp gylch gorchwyl, a bydd aelodaeth pob grŵp yn cael ei gytuno ar ddechrau pob blwyddyn gan y Bwrdd llawn.

5. Mecanweithiau Cyflawni

5.1 Bydd manylion unrhyw fecanweithiau cyflawni yn dibynnu'n llwyr ar ba swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan wasanaethau Safonau Masnach o dan lywodraethu'r Bwrdd a faint o gyllid sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau.

5.2 Bydd y mecanweithiau cyflawni yn canolbwyntio ar gomisiynu grwpiau o awdurdodau neu awdurdodau arweiniol gyda chefnogaeth eu grwpiau rhanbarthol, i ddarparu canolfannau rhagoriaeth cenedlaethol neu ranbarthol i gyflawni swyddogaethau penodol, gan ddefnyddio cyllid a ddyrannwyd i'r swyddogaeth honno.

5.3 Bydd y Bwrdd yn sicrhau gweithrediad effeithiol y swyddogaethau trwy reoli perfformiad ac adroddiadau ar y gweithgareddau y cytunwyd arnynt.

5.4 Bydd adroddiadau ar weithgarwch gweithredol yn cael eu cyflwyno i Swyddfa'r Rhaglen bob chwarter. Bydd yr adroddiadau'n cael eu coladu a'u rhannu wedyn gyda'r Bwrdd a grwpiau llywodraethu eraill.

5.5 Bydd gan bob tîm gweithredol ei ddangosyddion perfformiad cytunedig a'i ffurflenni ystadegol ei hun yn ogystal ag asesiadau ansoddol priodol o weithgaredd. Lle bo hynny'n briodol, bydd hyn hefyd yn cynnwys ffigurau niwed i ddefnyddwyr wedi'u cyfrifo a dadansoddiad o wariant.

5.6 Mae'n ofynnol i ddeiliaid grant roi adroddiadau ariannol i CTSI a byddant yn bodloni'r gofynion ariannol a nodir yn y cytundebau grant. Bydd adroddiadau ariannol cyffredinol yn cael eu rhoi gan y Cyfarwyddwr ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

6. Aelodaeth y Bwrdd

6.1 Bydd gan y Bwrdd Gadeirydd annibynnol ac un cynrychiolydd o bob un o'r grwpiau safonau masnach rhanbarthau Lloegr a Chymru isod:

- CEnTSA (Awdurdodau Safonau Masnach Canolbarth Lloegr)
- EETSA (Cymdeithas Safonau Masnach Dwyrain Lloegr)
- LTS (Safonau Masnach Llundain)
- NETSA (Cymdeithas Safonau Masnach y Gogledd Ddwyrain)
- TSSW (Safonau Masnach De Orllewin)
- TSEM (Safonau Masnach Dwyrain Canolbarth Lloegr)
- TSNW (Safonau Masnach Gogledd Orllewin)
- TSSE (Safonau Masnach De-ddwyrain)
- TSW (Safonau Masnach Cymru)
- YAHTSG (Grŵp Safonau Masnach Swydd Efrog a Humber)

6.2 Mae pob un o'r cynrychiolwyr hyn i'w henwebu trwy eu Grŵp Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Bydd aelodau'r Bwrdd yn mynegi barn o'u rhanbarthau a byddant yn dod i farn consensws fel Bwrdd er budd cenedlaethol. Bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau'r Bwrdd yng nghyd-destun nodau ac egwyddorion NTS.

6.3 Bydd pob un o'r aelodau hyn yn 'aelodau gweithredol'. Bydd ganddynt hawliau pleidleisio llawn a byddant yn gallu gwneud penderfyniadau ffurfiol ar faterion gerbron y Bwrdd.

6.4 Yn ogystal, gwahoddir cynrychiolwyr o CTSI, ACTSO, TS yr Alban, TS Gogledd Iwerddon ac Adrannau/Asiantaethau perthnasol y Llywodraeth i fynychu'r cyfarfodydd. Bydd pob un o'r aelodau hyn yn 'aelodau anweithredol'. Ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio ac ni fyddant yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol ar faterion gerbron y Bwrdd.

6.5 Bydd staff Swyddfa'r Rhaglen hefyd yn mynychu cyfarfodydd i roi cymorth i'r Bwrdd.

6.6 Os na all unrhyw aelod gweithredol llawn o'r Bwrdd fynychu cyfarfod, caiff yr aelod hwnnw enwebu aelod dirprwy i fynychu cyfarfodydd neu i weithredu ar eu rhan. Byddai gan unrhyw aelod dirprwy o'r Bwrdd yr un hawliau pleidleisio â'r aelod Bwrdd gweithredol llawn.

6.7 Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd gydymffurfio â'r datganiad o fuddiannau fel y nodir yn Atodiad 1.

6.8 Bydd yn fater i'r Bwrdd benderfynu ar y cyd a fydd gan gynrychiolwyr rhanbarthol hawl i bleidleisio os yw eu rhanbarth yn elwa naill ai'n ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall o unrhyw benderfyniadau a wneir. Bydd

dyletswydd ar gynrychiolwyr rhanbarthol i wneud datganiad o fuddiant (a all naill ai fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu neu yn fuddiant nad yw'n rhagfarnu) mewn amgylchiadau o'r fath.

6.9 Mae'r Cadeirydd yn cadw'r hawl, mewn cytundeb â'r Bwrdd, i gyfyngu gwahoddedigion i gyfarfod cyfan, neu ran ohono, pe bai hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn hwyluso dadl effeithiol a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft,

6.10 gallai hyn gynnwys trafod gwybodaeth:

- pan fo'r datgeliad wedi'i wahardd neu ei gyfyngu gan ddarpariaeth o unrhyw ddeddfiad;
- sydd fel arall yn ddarostyngedig ar ddyletswydd cyfrinachedd;
- gwybodaeth sy'n sensitif i'r farchnad;
- y gallai eu cyhoeddi rwystro cyflawni swyddogaethau unrhyw aelodau gweithredol o'r Bwrdd neu'r Gwasanaeth Safonau Masnach y maent yn eu cynrychioli; ac
- am unigolion fel aelodau o unrhyw Wasanaeth Safonau Masnach.

7. Rôl y Cadeirydd

7.1 Bydd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd, a fydd yn gwasanaethu isafswm tymor o ddwy flynedd o'r etholiad. Gall y Cadeirydd naill ai gael ei ethol o aelodau gweithredol y Bwrdd neu fel arall gall y Bwrdd benderfynu eu bod eisiau penodi Cadeirydd annibynnol.

7.2 Os bydd Cadeirydd annibynnol (h.y. nid un o'r Bwrdd sydd eisoes â hawliau pleidleisio fel yr amlinellir yn Adran 4 uchod) yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd, yna ni fydd ganddo/ganddi hi hawliau pleidleisio arferol ond pe bai pleidlais gyfartal ar unrhyw fater, byddai gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw.

8. Ymddygiad Aelodau'r Bwrdd

8.1 Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd gydymffurfio â'r datganiad o fuddiannau fel y nodir yn Atodiad 1.

8.2 Bydd aelodau'r Bwrdd yn ddarostyngedig ar ddyletswydd gyffredinol o gyfrinachedd mewn perthynas ag ymddygiad a materion y Bwrdd, ac eithrio pan fo'r Bwrdd neu ei Swyddfa Rhaglen yn awdurdodi neu y mae gofyn iddynt ddatgelu gwybodaeth i gynnal, neu hwyluso cyflawni, swyddogaethau'r Bwrdd.

8.3 Os oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd unrhyw bryderon am briodoldeb y Bwrdd neu unrhyw aelod o'r Bwrdd, mae proses dau gam. I ddechrau, dylid codi unrhyw bryderon yn gyfrinachol gyda'r Cadeirydd, a fydd o dan ddyletswydd i ymchwilio a bydd yn gwarantu anhysbysrwydd. Os na ellir datrys unrhyw bryderon, yna gellir codi'r mater hwn yn ffurfiol gyda'r Adran/Adrannau Llywodraeth perthnasol a fydd yn sicrhau bod y mater yn cael ei ymchwilio er mwyn sicrhau uniondeb unrhyw benderfyniadau a wneir. Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad y Cadeirydd, yna dylid ei chyfeirio at Gyfarwyddwr NTS a fydd yn ei chodi'n uniongyrchol gyda'r Adran/Adrannau'r Llywodraeth berthnasol.

9. Cyfarfodydd y Bwrdd

9.1 Bydd y Bwrdd yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ar yr amod bod digon o fusnes i gyfiawnhau cyfarfod a digon o aelodau i ffurfio cworwm o o leiaf chwe aelod gweithredol. Gall y Cadeirydd, neu unrhyw bedwar aelod gweithredol o'r Bwrdd, alw cyfarfodydd ychwanegol.

9.2 Os bydd cynrychiolydd rhanbarthol angen cymorth ar gyfer costau teithio neu lety, dylent drefnu hyn trwy eu rhanbarth.

9.3 Darperir cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd drwy'r Swyddfa Rhaglen.

9.4 Wrth gynnull cyfarfod o'r Bwrdd, rhaid rhoi o leiaf un diwrnod ar hugain o rybudd o'r cyfarfod i bob aelod gweithredol ac anweithredol oni bai bod y Cadeirydd yn ystyried ei fod yn fater brys.

9.5 Bydd hysbysiad o gyfarfod yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig a bydd yn cynnwys manylion y cyfarfod a'r busnes i'w gynnal yn y cyfarfod hwnnw.

9.6 Ni fydd methiant aelod gweithredol neu anweithredol i dderbyn hysbysiad o gyfarfod yn annilysu'r cyfarfod hwnnw nac unrhyw fusnes a gynhelir ynddo.

9.7 Os nad yw'r Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod, bydd yr aelodau gweithredol hynny sy'n bresennol yn penodi un o'u nifer i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

9.8 Bydd penderfyniadau a wneir gan aelodau gweithredol y Bwrdd yn cael eu gwneud trwy benderfyniad cyffredin. Yn achos pleidlais gyfartal, bydd gan y

Cadeirydd, neu, yn ei absenoldeb, Cadeirydd y cyfarfod a benodir yn unol â pharagraff 9.7, ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

9.9 Mewn egwyddor, bydd y Bwrdd yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am unrhyw benderfyniad a wneir ganddo a bydd yn ceisio sicrhau unfrydedd yn y penderfyniadau. Pan fo gan aelodau bryderon na ellir eu datrys mewn perthynas â mater penodol neu weithred arfaethedig, dylent sicrhau bod y pryderon hyn yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cyfarfodydd y Bwrdd.

9.10 Dim ond aelodau gweithredol sy'n bresennol mewn cyfarfod sy'n gallu pleidleisio. Bydd unrhyw aelod gweithredol o'r Bwrdd sy'n gadael cyfarfod cyn diwedd cyfarfod yn cael ei ystyried yn aelod gweithredol o'r Bwrdd nad yw'n cymryd rhan at ddibenion unrhyw benderfyniad a wneir gan y Bwrdd yn ystod absenoldeb y person hwnnw.

10. Cofnod cyfarfodydd

10.1 Bydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadw gan Swyddfa'r Rhaglen. Bydd crynodeb o'r cyfarfod yn cael ei anfon at bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Bydd cofnodion llawn ar gael ar gais ac yn cael eu cyhoeddi ar wefannau priodol (e.e. ACTSO), yn amodol ar olygiad deunydd cyfrinachol. Mae enghreifftiau o ddeunydd cyfrinachol yn cynnwys gwybodaeth:

- pan fo'r datgeliad wedi'i wahardd neu ei gyfyngu gan ddarpariaeth unrhyw ddeddfiad;
- sydd fel arall yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd;
- gwybodaeth sy'n sensitif i'r farchnad;
- y gallai eu cyhoeddi rwystro cyflawni swyddogaethau unrhyw aelodau gweithredol o'r Bwrdd neu'r Gwasanaethau Safonau Masnach y maent yn eu cynrychioli; ac
- am unigolion fel aelodau o unrhyw Wasanaeth Safonau Masnach.

11. Trefniadau ariannol

11.1 Rhaid i'r Bwrdd allu dangos rheolaeth ariannol dda a sicrhau bod y gwaith strategol a gweithredol y mae'n ei oruchwylio yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir a'r gwerth am arian. Rhaid i'r Bwrdd hefyd gydymffurfio â Chanllawiau Trysorlys EF ar Reoli Arian Cyhoeddus a/neu unrhyw

ganllawiau eraill a ddarperir gan y Llywodraeth i sicrhau uniondeb wrth wario arian cyhoeddus.

11.2 Bydd y Bwrdd yn enwebu sefydliad i ddal yr arian y mae'n gyfrifol amdanynt a bydd yn sicrhau bod yr holl drefniadau ariannol angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu, buddsoddi ac archwilio (gan gynnwys penodi archwilwyr allanol) yn unol â gofynion unrhyw Adran Llywodraeth, Asiantaeth neu gorff arall sy'n rhoi arian i NTS.

12. Adolygu

12.1 Bydd y Bwrdd yn ailasesu'r cylch gorchwyl hwn ar gyfnodau priodol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol dros amser.

Atodiad 1

SAFONAU MASNACH CENEDLAETHOL
Cynllun ar gyfer Datgan Buddiannau

1. Diben

1.1 Diben y cynllun hwn yw cefnogi aelodau'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol i wneud penderfyniadau am unrhyw fuddiannau y dylid eu datgan er mwyn sicrhau tryloywder ac nad oes gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig pan wneir y penderfyniadau hyn.

2. Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

2.1 Ystyrir bod aelodaeth o'r Bwrdd, at ddibenion y cynllun hwn, yn benodiad i 'swydd gyhoeddus' ac mae hyn yn dod ag ymrwymiad i gydymffurfio â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus. Mae'r egwyddorion hyn fel a ganlyn:

(a) Rhaid i chi weithredu er budd y cyhoedd yn unig ac ni ddylech byth roi mantais neu anfantais amhriodol i unrhyw berson neu weithredu i ennill buddion ariannol neu faterol eraill i chi'ch hun, eich teulu, eich ffrind neu'ch cydymaith agos.

(b) Rhaid i chi beidio â rhoi eich hun o dan rwymedigaeth ariannol neu arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnoch wrth gyflawni'ch dyletswyddau swyddogol.

(c) Wrth gyflawni'ch dyletswyddau cyhoeddus, rhaid i chi wneud pob dewis, megis gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddion, ar sail teilyngdod.

(d) Rydych chi'n gyfrifol am eich penderfyniadau i'r cyhoedd ac mae'n rhaid i chi gydweithredu'n llawn â pha bynnag graffu sy'n briodol i'ch swyddfa.

(e) Rhaid i chi fod mor agored â phosibl am eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd a phenderfyniadau a gweithredoedd eich awdurdod a dylech fod yn barod i roi rhesymau dros y penderfyniadau a'r gweithredoedd hynny.

(f) Rhaid i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat, ariannol ac anariannol, sy'n ymwneud â'ch dyletswyddau cyhoeddus a rhaid i chi gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y

cyhoedd, gan gynnwys cofrestru a datgan buddiannau mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau a nodir isod.

(g) Rhaid i chi hyrwyddo a chefnogi safonau uchel o ymddygiad wrth wasanaethu yn eich swydd gyhoeddus, yn enwedig fel y'u nodweddir gan y gofynion uchod, trwy arweinyddiaeth ac esiampl.

2.2 Mae'r cynllun, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddatgan buddiannau ariannol ac anariannol a rhaid cofrestru'r rhain gyda'r Cyfarwyddwr Safonau Masnach Cenedlaethol ar ôl eu penodi i'r Bwrdd neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny ond cyn mynychu cyfarfod cyntaf y Bwrdd neu ei is-bwyllgorau. [1]

2.3 Mae pa fuddiannau sydd angen eu datgan a sut y dylid osgoi unrhyw wrthdaro posibl wedi'u nodi yn yr adrannau canlynol. Nid yw'n mynd i'r afael â sefyllfaoedd penodol yn fanwl (ac eithrio'r hyn a amlinellir yn atodiad tri) ond mae'n rhoi trosolwg o'r math o wrthdaro buddiannau a allai godi yn y rôl fel aelod o Fwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol.

2.4 Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod Safonau Masnach Cenedlaethol yn unigryw gan fod ei fwrdd wedi'i gyfansoddi'n fwriadol i gynnwys arbenigwyr mewn Safonau Masnach sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol sydd, eu hunain, yn gyfrifol am weithredu rhaglenni (ledled y wlad) sy'n cael eu hariannu gan Safonau Masnach Cenedlaethol. Mae dyrannu arian i weithredu rhaglenni arbenigol, felly, yn heriol o safbwynt gwrthdaro posibl sy'n ariannol eu natur, ond nid er budd personol.

3. Beth yw Gwrthdaro Buddiannau?

3.1 Gwrthdaro buddiannau yw unrhyw sefyllfa lle gall eich buddiannau personol, neu fuddiannau sydd gennych mewn corff arall (fel eich cyflogwr) neu berson, ddylanwadu neu effeithio ar eich penderfyniadau.

3.2 Mae gwrthdaro buddiannau yn aml yn digwydd. Mae'r mater, fodd bynnag, yn ymwneud â rheoli unrhyw sefyllfa lle mae potensial i bennu bod eich safbwynt neu eich penderfyniad wedi cael ei ddylanwadu gan deyrngarwch gwrthdaro neu y gellid ei ystyried fel y cyfryw. Y potensial, yn ogystal â'r budd gwirioneddol, y mae gwrthdaro buddiannau yn codi ohono sy'n gofyn am sylw. Er mwyn sicrhau anhunanoldeb a thryloywder, mae angen datganiad lle mae posibilrwydd y bydd pobl y tu allan i'r Bwrdd yn cymryd yn ganiataol y gallech chi (neu ffrind neu

[1] At ddibenion mabwysiadu'r cynllun am y tro cyntaf, ar ôl cytuno arno gan y Bwrdd, rhaid i aelodau ddatgan eu buddiannau cyn i'r cyfarfod canlynol ddechrau.

berthynas) gael rhywfaint o fudd o fusnes neu benderfyniadau'r Bwrdd. Bydd hyn yn osgoi cyhuddiadau o amhriodoldeb, a allai yn ei dro gael effaith niweidiol ar enw da'r Bwrdd.

3.3 Gall materion hefyd godi lle mae gennych wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch ar fater, ond nid oes potensial ar gyfer elw neu fantais gan unrhyw berson. Efallai y bydd hyn yn dal i fod yn bwysig i'w ddatgan fel ei bod yn amlwg bod penderfyniad wedi'i wneud yn gywir. Er enghraifft, rydych chi'n aelod o gorff allanol ac mae materion y corff hwnnw'n cael eu codi mewn cyfarfod. Mae'n ddefnyddiol i bawb sy'n gysylltiedig gael gwybod am y cysylltiad â'r corff arall hwnnw hyd yn oed os nad oes unrhyw beth yn y ddadl neu'r penderfyniad yn dibynnu'n arbennig ar y datganiad.

3.4 Gall gwrthdaro buddiannau ddod ar sawl ffurf:

- enillion neu fudd ariannol uniongyrchol (ariannol)
- dyfarnu contract i sefydliad arall y mae gennych chi (neu ffrind neu berthynas) fuddiant ynddo ac y byddwch (neu nhw) yn derbyn budd ariannol ohono
- elw ariannol anuniongyrchol, megis cyflogaeth gan y Bwrdd neu gyflogaeth gan 'gontractwr' i Fwrdd eich partner, aelod o'r teulu neu ffrind agos.
- elw anariannol, megis pan fydd penderfyniad neu bolisïau'r Bwrdd yn effeithio ar sefydliad arall yr ydych yn aelod ohono.

3.5 Er mwyn helpu i benderfynu a oes neu a allai fod buddiant ariannol canfyddedig, nododd y Llywodraeth, drwy Reoliadau Awdurdodau Perthnasol (Buddiannau Ariannol y Gellir eu Datgelu) 2012, y mathau o faterion y dylai cynghorwyr lleol fod yn ymwybodol ohonynt fel y dangosir isod.

Buddiannau Ariannol Penodedig

Pwnc	Disgrifiad Rhagnodedig
Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth	Unrhyw gyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth a gynhelir er elw neu fudd.
Nawdd	Unrhyw daliad neu ddarpariaeth o unrhyw fudd ariannol arall (ac eithrio gan yr awdurdod perthnasol) a wneir neu a ddarperir o fewn y cyfnod perthnasol mewn perthynas ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gan A wrth gyflawni dyletswyddau fel aelod, neu tuag at dreuliau etholiadol A. Mae hyn yn cynnwys unrhyw daliad neu fudd ariannol gan undeb llafur o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfuno) 1992(3).

Contractau	Unrhyw gontract a wneir rhwng y person perthnasol (neu gorff y mae gan y person perthnasol fuddiant llesiannol ynddo) a'r awdurdod perthnasol— (a) y mae nwyddau neu wasanaethau i'w darparu neu weithiau i'w cyflawni yn rhan ohonynt; ac (b) nad yw wedi'i gyflawni'n llawn.
Tir	Unrhyw fuddiant llesiannol mewn tir sydd o fewn ardal yr awdurdod perthnasol.
Trwyddedau	Unrhyw drwydded (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill) i feddiannu tir yn ardal yr awdurdod perthnasol am fis neu fwy.
Tenantiaethau Corfforaethol	Unrhyw denantiaeth lle mae'r (hyd y gŵyr A)— (a) y landlord yw'r awdurdod perthnasol; a (b) mae'r tenant yn gorff lle mae gan y person perthnasol fuddiant buddiol ynddo.
Gwarantau	Unrhyw fuddiant llesiannol mewn gwarantau corff— (a) bod gan y corff hwnnw (hyd y gŵyr A) le busnes neu dir yn ardal yr awdurdod perthnasol; ac (b) naill ai— (i) mae cyfanswm gwerth enwol y gwarantau yn fwy na £25,000 neu'r canfed rhan o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd gan y corff hwnnw; neu (ii) os yw cyfran cyfalaf y corff hwnnw yn fwy nag un dosbarth, cyfanswm gwerth enwol cyfranddaliadau unrhyw un dosbarth y mae gan y person perthnasol fuddiant buddiol ynddo yn fwy na'r canfed o gyfanswm cyfran cyfalaf a gyhoeddwyd o'r dosbarth hwnnw.

3.6 Mae'r Bwrdd yn disgwyl i chi allu nodi gwrthdaro buddiannau posibl pan fyddant yn codi (neu ymlaen llaw os yw hyn yn hysbys – megis pan gyhoeddir agenda ar gyfer cyfarfod) ac i sicrhau eich bod yn derbyn cyngor ac yn gwneud y datganiadau priodol. Byddai'r cyngor hwn bob amser yn dod gan y Cyfarwyddwr neu ei (h)asiant enwebedig.

4. Rheoli Gwrthdaro Buddiannau

4.1 Mae angen i aelodau'r Bwrdd fod yn wyliadwrus o wrthdaro buddiannau posibl a gweithredu i leihau eu heffeithiau, elfen bwysig ohono yw bod yn agored ac yn dryloyw am sefyllfaoedd o'r fath cyn a phan fyddant yn codi.

4.2 Mae hyn yn dechrau drwy lenwi'r gofrestr o fuddiannau (Ffurflen 1 isod) sy'n cael ei chadw gan Gyfarwyddwr y Bwrdd o fewn 28 diwrnod i'r penodiad i'r Bwrdd ac, os am unrhyw reswm nad yw hyn yn bosibl, cyn cyfarfod dilynol y Bwrdd, lle na chaniateir presenoldeb oni bai bod hyn wedi'i gwblhau.

4.3 Mae'n arfer da ar ddechrau cyfarfod i aelod ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddo/ganddi mewn eitem i'w thrafod (hyd yn oed os yw'r aelod hwnnw wedi hysbysu'r Cyfarwyddwr cyn y cyfarfod, ac yn sicr cyn unrhyw drafodaeth o'r eitem ei hun). Weithiau nid yw hyn yn bosibl oherwydd bod mater yn codi mewn ffordd heb ei gynllunio mewn cyfarfod a rhaid datgan y buddiant hwn ar unwaith neu dylai'r aelod adael os yw hwn yn fater sy'n gofyn i aelod beidio â bod yn bresennol – megis y potensial neu'r canfyddiad o fudd ariannol posibl o unrhyw benderfyniad a wneir.

4.4 Pan fydd buddiant yn cael ei ddatgan gan aelod, bydd y buddiant hwnnw'n cael ei nodi gan y Cadeirydd. Os bydd "Buddiant Ariannol i'w Ddatgelu" yn cael ei ddatgan, yn ddarostyngedig ar Adran 5 isod, dylai'r aelod dynnu ei hun o drafod y mater hwnnw. Fodd bynnag, os oes unrhyw bersonau allanol yn gwneud sylwadau neu os oes gwybodaeth ar y pwnc y mae angen ei hateb, gallwch aros i ddarparu'r wybodaeth ond unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, rhaid i chi adael yr ystafell a pheidio â bod yn bresennol ar gyfer y bleidlais.[2]

4.5 Pan ddatganir gwrthdaro buddiannau eraill, mae'n rhaid i'r aelod ddatgan a bydd yr aelod yn aros yn yr ystafell, yn siarad ac yn pleidleisio ar faterion o'r fath. Fodd bynnag, os yw'r aelod (neu'r Cadeirydd neu'r Cyfarwyddwr) yn teimlo y byddai hyn yn arwain at feirniadaeth dan yr amgylchiadau penodol, yna dylent adael yr ystafell tra bod y ddadl a'r bleidlais yn mynd rhagddi hebddyn nhw

5. Gwneud Datganiadau ynglŷn â Gosod Cyllidebau

5.1 O ystyried paragraff 2.4. Yr unig ffordd y mae'n bosibl i'r Bwrdd weithredu'n effeithiol, fel rhan o'r system Safonau Masnach, yw os oes penderfyniadau colegol, gyda'r holl ranbarthau dan sylw, lle bynnag y bo modd.

5.2 Mae'n bwysig bod aelodau Bwrdd NTS yn ymrwymo i'r safonau moesegol a ddisgwylir gan ddeiliaid swyddi *cyhoeddus* fel y'u sefydlwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan'). Ar yr un pryd, mae angen i'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol i warchod buddiannau defnyddwyr. Gall hyn greu amgylchiadau sy'n gwrthdaro rhwng datganiadau aelodau ac ymgymryd â busnes y Bwrdd o ystyried bod yr NTS wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol i gael gweithwyr proffesiynol safonau masnach 'arbenigol' ar ei Fwrdd sydd, yn anochel, yn gyfrifol am

[2] Er enghraifft, pan fo eitem i'w thrafod ynglŷn â darparu gwasanaeth penodol a'r rhanbarth lle rydych yn cael eich cyflogi yn cael ei ystyried, rhaid i chi ddilyn y weithdrefn a nodir yn atodiad tri.

gyflenwi Prosiectau a gomisiynwyd gan y Bwrdd trwy eu sefydliadau lleol neu ranbarthol.

5.3 Er mwyn i'r Bwrdd weithredu'n effeithiol ac i alluogi aelodau'r Bwrdd i gydymffurfio â'u dyletswyddau wrth ddatgan buddiannau ac i osgoi unrhyw wrthdaro, mae'r adran hon yn rhoi enghreifftiau am benderfyniadau allweddol Bwrdd NTS a'r gweithdrefnau i'w dilyn. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall amrywio hyn os oes amgylchiadau yn gofyn am hynny. Mewn unrhyw achos o'r fath rhaid cofnodi'r penderfyniad hwn.

5.4 Ym mhob achos, ni ddylai unrhyw aelod fod yn bresennol i bleidleisio ar fater lle byddan nhw, eu teulu neu unrhyw gydymaith agos yn cael mantais bersonol - yn ariannol neu fel arall.

5.5 **Meysydd Gwaith Newydd / Prosiectau Arbennig**

Gofynnir i NTS gyflwyno rhaglen newydd o waith a allai gynnwys nifer o adrannau safonau masnach lleol neu sefydliadau rhanbarthol fel yr asiantau cyflenwi. Gall y Cadeirydd roi rhyddhad cyffredinol i alluogi holl aelodau'r Bwrdd i fod yn bresennol i drafod a yw Safonau Masnach Cenedlaethol yn cytuno i ymgymryd â gwaith o'r fath ai peidio a dyrannu'r cyllidebau ar gyfer unrhyw waith o'r fath. Os mai'r argymhelliad oedd mai dim ond un awdurdod/rhanbarth fyddai'n cael ei ddewis ar gyfer cyflawni'r prosiect hwn a bod aelod o'r Bwrdd yn dod o'r awdurdod/rhanbarth lleol hwnnw, gall ef neu hi gymryd rhan yn y drafodaeth ond nid yw'n gallu pleidleisio. Os yw'r Cadeirydd neu unrhyw aelod o'r Bwrdd yn teimlo y byddai hyn yn cyfyngu ar ddadl a thrafodaeth agored, gall y Cadeirydd ofyn i'r Bwrdd perthnasol eu hesgusodi o'r drafodaeth.

5.6 **Gosod Blaenoriaethau a Chyllideb yn Flynyddol**

Yn flynyddol, mae'r Bwrdd yn pennu dyraniadau cyllideb i awdurdodau lleol a rhanbarthau i gyflawni ei waith. Gan fod pob aelod o'r bwrdd hefyd yn aelod o un o'r awdurdodau/rhanbarthau lleol hyn, bydd pob aelod yn bresennol ac yn rhan o'r drafodaeth.

Pan fydd dyraniad yn mynd i bob/rhan fwyaf o adrannau safonau masnach lleol neu bob/rhan fwyaf o ranbarthau, yna gall pob aelod hefyd bleidleisio ar y mater hwn oni bai bod y Cadeirydd o'r farn ei bod yn amhriodol iddynt wneud hynny.

Ar benderfyniadau sy'n dyrannu cyllidebau i nifer fach o awdurdodau/rhanbarthau lleol (er enghraifft ar gyfer timau cenedlaethol), rhaid i

aelodau dynnu eu hunain o'r bleidlais pan fydd penderfyniad i'w wneud ar y dyraniad i'w hawdurdod lleol/rhanbarth penodol.

5.7 **Amrywiadau i ddyraniadau canol blwyddyn**

Pan fo amrywiadau yn cael eu gwneud i gyllidebau o fewn blwyddyn benodol, dylai proses debyg fod yn berthnasol ag ar gyfer cyllidebu blynyddol. H.y. os yw'r newidiadau yn effeithio ar bob/rhan fwyaf o awdurdodau/rhanbarthau lleol yna gall pob aelod o'r Bwrdd fod yn rhan o'r bwrdd a phleidleisio. Fodd bynnag, os yw'n berthnasol i nifer fach o awdurdodau/rhanbarthau lleol neu y bydd un ardal yn ennill llawer mwy nag eraill, yna gall aelod yr awdurdod lleol/rhanbarth hwnnw gymryd rhan yn y drafodaeth ond ni all bleidleisio. Os yw'r Cadeirydd neu unrhyw aelod o'r Bwrdd yn teimlo y byddai hyn yn cyfyngu ar ddadl a thrafodaeth agored, gall y Cadeirydd ofyn i'r Bwrdd perthnasol eu hesgusodi o'r drafodaeth.

6. Canlyniadau Torri'r Polisi

6.1 Mae'n debygol y bydd dau fath o dor polisi.

i. Gwall pan fydd aelod yn anghofio datgan buddiant neu
ii. Toriad bwriadol a bwriadus i guddio buddiant pan fydd penderfyniad penodol yn cael ei wneud.

6.2 Os bydd camgymeriad anghofus, mae angen i'r aelod roi gwybod i'r Cyfarwyddwr cyn gynted â phosibl. Os bydd hyn yn digwydd tra bod y cyfarfod yn dal i fynd rhagddo, mae angen i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr gynnal a phenderfynu a yw'r toriad mewn gwirionedd yn sylweddol a/neu arwyddocaol ac a allai'r penderfyniad fod wedi bod yn wahanol pe bai'r buddiant wedi'i ddatgan. Os yw'r buddiant a ddatganwyd yn fuddiant ariannol i'w ddatgelu, mae angen ystyried bod y penderfyniad cynharach yn ddi-rym ac ailagor yr eitem a dilyn y weithdrefn gywir.

6.3 Mewn achos o doriad bwriadol, mae angen i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr gychwyn ymchwiliad ffurfiol a lle bo angen dylid ystyried penderfyniad ar atal ar unwaith.

7. Adolygiad o'r Polisi

7.1 Bydd y polisi hwn a'i gymhwyso yn cael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf ac unrhyw ddiwygiadau yn cael eu gwneud fel y bo'n briodol. Wedi hynny, bydd yn destun adolygiad bob tair blynedd.

Ffurflen 1

SAFONAU MASNACH CENEDLAETHOL
Diogelu Defnyddwyr
Cefnogi Busnesau

Cofrestr Buddiannau
Aelodau o'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd hysbysu'r Cyfarwyddwr, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael ei benodi, o'r holl "fuddiannau ariannol i'w datgelu" a "buddiannau anariannol" cyfredol y maent yn ymwybodol ohonynt.

Enw:

Buddiannau Ariannol i'w Datgelu

Fel Aelod o'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol, rhoddaf hysbysiad bod gen i'r buddiannau ariannol canlynol i'w datgelu. Mae'r buddiannau hyn yn berthnasol i mi neu fy mhartner (sy'n golygu priod neu bartner sifil, person yr wyf yn byw gydag ef fel gŵr neu wraig, neu berson yr wyf yn byw gydag ef fel pe baem yn bartneriaid sifil), i'r graddau y byddaf yn ymwybodol o'i fuddiannau.

Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth a gyflawnir er elw neu ennill. Dylech ddangos pob cyflogaeth, swydd, gan gynnwys cyfarwyddwyr cwmnïau, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth y mae'n rhaid i chi a'ch partner ddatgan.

Rhowch enw'r cyflogwr a rhowch ddisgrifiad byr o'r buddiant neu'r gweithgaredd dan sylw; er enghraifft, "Gweithredwr Cyfrifiadurol" neu "Cyfrifydd".

Pan fyddwch yn dal swydd (ac eithrio Safonau Masnach Cenedlaethol), rhowch enw'r person neu'r corff a'ch penododd. Yn achos swydd gyhoeddus, dyma'r awdurdod sy'n eich talu.

Enw'r sefydliad	Math o Fuddiant/Gweithgaredd	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen

Buddiannau Anariannol

Unrhyw gorff proffesiynol, undeb llafur neu debyg yr ydych yn aelod ohono

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

NODYN: Rhaid i aelod, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i'r buddiannau a bennir uchod, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr o'r newid hwnnw.

Gwybodaeth Sensitif

Pan fyddwch o'r farn y gallai datgelu manylion buddiant arwain atoch chi, neu berson sy'n gysylltiedig â chi brofi trais neu fygylu, a bod y Cyfarwyddwr yn cytuno, bydd unrhyw fersiwn gyhoeddedig o'r gofrestr yn eithrio manylion y buddiant ond gall nodi bod gennych fuddiant, ond bod y manylion yn cael eu cadw'n ôl.